# Clwb Allforio
# Bwyd a Diod Cymru

Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales







## Cynllun Peilot Grant Cyfieithu Iaith Dramor

Rydym yn cydnabod fod yr angen i gael deunydd gwerthu a marchnata, pecynnu i gynnyrch, gwefan, ac ati ar gael yn iaith marchnad y cyrchfan allforio yn gallu bod yn ddrud ac felly'n rhwystr i sicrhau archebion allforio. Felly, rydym yn treialu grant bach i helpu anghenion cyfieithu 20 o fusnesau.

### Sut allwch chi elwa?

Nod y Cynllun Peilot Grant Cyfieithu Iaith Dramor yw cefnogi busnesau bwyd a diod gyda 50% o'r arian hyd at uchafswm o £500 i gyfieithu deunydd gwerthu neu farchnata a fydd yn eich helpu i fynd mewn i farchnadoedd allforio newydd.

### Pwy all elwa?

Aelodau o'r Clwb Allforio Bwyd a Diod sydd:

- Yn newydd i allforio
- Yn allforwyr presennol sy'n targedu marchnadoedd allforio newydd sy'n gofyn am ddeunydd mewn iaith wahanol
- Yn allforwyr presennol sy'n lansio cynnyrch newydd mewn marchnad allforio gyfredol, ac felly angen pecynnau/deunyddiau gwerthu a marchnata newydd

### Am beth allwch chi hawlio?

Mae enghreifftiau o'r math o ddeunyddiau sy'n gymwys am y Cynllun Peilot Grant Cyfieithu Iaith Dramor* yn cynnwys y canlynol, ond nid yn gyfyngedig i'r rhain:

- Gwefan/tudalennau gwe sydd wedi'u targedu at gwsmeriaid tramor
- Cyflwyniadau cwmni sy'n amlygu gwybodaeth fel Pwyntiau Gwerthu Unigryw, achrediadau, hanes y cwmni, tarddiad cynhyrchion, prisio, manylebau
- Pecynnu/labelu, Catalog neu lyfryn gwerthu a Deunyddiau pwynt gwerthu
- Rhestri prisiau a Manylebau cynnyrch

*Gan fod y gefnogaeth hon wedi'i hanelu at farchnadoedd allforio, mae costau cyfieithu sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg wedi'u heithrio'n benodol

### Sut i wneud cais

Anfonwch e-bost at angharad.evans@bic-innovation.com am ffurflen gais. **Mae'n rhaid gwneud yr holl geisiadau erbyn 31 Mawrth 2018, felly mae'r grant hwn ar gael am gyfnod cyfyngedig yn unig.**